

Arolygiad Dirybudd o Urddas a Gofal Hanfodol

Bwrdd Addysgu Iechyd Powys

Ysbyty Bronllys

Ward Llewellyn

Dyddiad yr arolygiad: 26 Chwefror 2014

Cynnwys

Pennod	Rhif Tudalen
1. Cyflwyniad	2
2. Methodoleg	3
3. Crynodeb	4
4. Canfyddiadau:	
4a. Profiad Cleifion	6
4b. Darparu Hanfodion Gofal	8
4c. Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	13
4d. Ansawdd a Diogelwch	14
5. Glanweithdra	16
6. Y Camau Nesaf	18
Atodiad A – Cynllun Gwella	19

1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) Arolygiad Dirybudd o Urddas a Hanfodion Gofal yn Ward Llewellyn, Ysbyty Bronllys, sy'n rhan o Fwrdd Addysgu Iechyd Powys, ar 26 Chwefror 2014. Yn ystod yr arolygiad fe wnaethom arsylwi ar y meysydd a ganlyn a'u hadolygu:

- Profiad Cleifion
- Darparu Hanfodion Gofal
- Rheolaeth ac Arweinyddiaeth
- Ansawdd a Diogelwch.

2. Methodoleg yr Arolygiad

Mae *Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol* AGIC yn adolygu'r modd y cynhelir urddas cleifion mewn ward / uned / Adran mewn ysbyty a'r gofal nyrsio hanfodol, sylfaenol y mae cleifion yn ei dderbyn¹. Rydym yn adolygu dogfennaeth a gwybodaeth o nifer o wahanol ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth sydd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) eisoes
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau a chyfweliadau â staff
- Trafodaeth ag uwch reolwyr yn y Bwrdd Iechyd
- Archwilio sampl o gofnodion iechyd cleifion
- Craffu ar y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n sail i ofal y cleifion
- Arsylwi'n gyffredinol ar yr amgylchedd gofal a'r arferion gofal.

Mae'r arolygiadau hyn a gynhelir gan AGIC yn cael cipolwg ar safonau'r gofal y mae cleifion yn ei dderbyn mewn wardiau/unedau/Adrannau mewn ysbytai. Gall y cipolwg awgrymu bod angen edrych ar faterion ehangach mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch y gofal hanfodol ac urddas cleifion.

Ar ddechrau'r arolygiad, rhoesom gyfarwyddiadau i'r tîm clinigol a gofynnwyd iddynt roi gwybod i ni bob amser petai'r gweithgaredd clinigol yn cynyddu a phetai angen i'r tîm arolygu fod yn arbennig o ofalus i sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith arolygu a pharchu anghenion cleifion.

Rhoesom drosolwg o'n prif ganfyddiadau a'n gofynion i gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd i roi adborth ar ddiwedd ein harolygiad. Yn sgil yr arolygiad ni welsom unrhyw bryderon lle roedd angen rhoi sylw i bethau ar frys. Mae ein canfyddiadau i'w gweld yn llawn yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.

¹ *Hanfodion Gofal*, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003

3. Crynodeb

Yn gyffredinol, gall cleifion fod yn ffyddiog fod y gwasanaeth yn Ysbyty Bronllys yn cael ei redeg yn dda. Cawsom fod gan y Bwrdd Iechyd nifer o drefniadau monitro ar waith, mewn perthynas â phrofiad cleifion o ofal, arferion clinigol, systemau gwaith diogel ac agweddau ehangach ar lywodraethu o fewn y sefydliad. Fodd bynnag, gwelsom nifer o ddiffygion mewn perthynas â'r trefniadau cyfredol ar gyfer atal a rheoli heintiau.

Roedd amgylchedd y ward yn olau a dymunol ac nid oedd yn orlawn o bethau. Mae'r cleifion sy'n derbyn gofal yn Ysbyty Bronllys yn cael eu cymell i siarad â'r staff os oes ganddynt gwestiynau neu bryderon am unrhyw agwedd ar eu gofal. Dywedodd rhai o'r cleifion wrthym y byddent yn hyderus i fynd at unrhyw aelod o'r staff nyrsio neu glinigol petai ganddynt unrhyw bryderon am y trefniadau arfaethedig ar gyfer eu rhyddhau o'r ysbyty.

Un arfer nodedig a welsom oedd fod y staff nyrsio a meddygol yn ddoeth a gofalus wrth gynnal sgwrs â chleifion yn ystod rownd y ward a phan fyddai meddygon a staff y ward yn trafod pethau â'i gilydd. Roedd y staff hefyd yn gwneud ymdrechion mawr i ddarparu gwasanaethau therapi galwedigaethol a gweithgareddau er mwyn cynnal a hyrwyddo annibyniaeth cleifion.

Er ein bod wedi gweld yr arferion da hyn, fe welsom feysydd y dylid eu gwella mewn perthynas â Hanfodion Gofal ac Ansawdd a Diogelwch. Roedd y rhain yn gysylltiedig â sicrhau bod dogfennaeth cleifion – gan gynnwys cofnodion gweinyddu meddyginiaethau – yn cael eu cwblhau'n llawn er mwyn adlewyrchu'r gofal a dderbyniwyd.

Gwelsom feysydd y dylid eu gwella hefyd mewn perthynas â Rheolaeth ac Arweinyddiaeth. Mae'r rhain yn gysylltiedig â chwblhau data ysbyty a chyfathrebu'n ddigonol â staff domestig er mwyn sicrhau bod swyddogaethau gweithwyr yn ddigon clir.

Yn gyffredinol, roedd amgylchedd y ward yn ymddangos yn lân a dymunol ac o siarad â'r cleifion deallwyd eu bod yn fodlon ar lefel y glanweithdra. Nid oedd y ward yn orlawn o bethau ac felly roedd y cleifion a'r staff yn gallu symud o gwmpas yn rhwydd a diogel. Er hynny, gwelwyd pethau y dylid eu gwella mewn perthynas â glanweithdra ac nid oedd y staff yn gwybod digon am weithdrefnau atal a rheoli heintiau Cymru gyfan. Yn benodol, canfuom nad oedd y staff nyrsio a domestig wedi cael hyfforddiant ar arferion atal a rheoli heintiau yn y blynyddoedd diwethaf.

4. Canfyddiadau

4a. Profiad Cleifion

Yn ystod yr arolygiad hwn, ni welsom unrhyw agweddau ar y gwasanaeth lle mae angen gwelliant yn y maes hwn.

Yn gyffredinol, roedd amgylchedd y ward yn olau a dymunol ac nid oedd yn orlawn o bethau. Mae'r cleifion sy'n derbyn gofal yn Ysbyty Bronllys yn cael eu cymell i siarad â'r staff os oes ganddynt gwestiynau neu bryderon am unrhyw agwedd ar eu gofal. Dywedodd rhai o'r cleifion wrthym y byddent yn hyderus i fynd at unrhyw aelod o'r staff nyrsio neu glinigol petai ganddynt unrhyw bryderon am y trefniadau arfaethedig ar gyfer eu rhyddhau o'r ysbyty.

At hynny, dywedodd y cleifion a siaradodd â ni fod y staff yn *'ardderchog, cydwytbodol a gofalgar'*. Gwelsom y staff yn siarad â chleifion ac aelodau eraill o'r staff yn dawel, proffesiynol a chwrtais drwy gydol ein hymweliad.

O sgwrsio â'r staff cafwyd ar ddeall fod gwybodaeth berthnasol ar gael ar ffurf canllawiau ysgrifenedig sy'n cael eu rhoi yn ystafell pob claf. Mae'r canllawiau'n cynnwys holiadur, yr anogir y cleifion i'w lenwi. O drafod â'r staff, deallwyd bod yr awgrymiadau y mae unigolion yn eu gwneud yn cael eu hystyried ac y gwneir pob ymdrech i gyflawni newidiadau a awgrymir.

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu helpu i barhau'n ymwybodol o'r amser o'r dydd a'r dyddiad, gan fod cloc mawr ym mhob ystafell gyda chalendr arno. Roedd yn amlwg fod y cynllun pili-pala² yn cael ei ddefnyddio yn y ward. Cawsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch a gwelsom y staff yn ymdrechu i sicrhau bod pobl yn cael cymaint â phosibl o breifatrwydd pan oeddent yn cael eu helpu gyda'u gofal personol. Er enghraifft, roedd arwydd ar ystafell pob claf i hysbysu'r rhai sy'n mynd heibio na ddylent ddod i mewn

² Mae'r Cynllun Pili-pala yn galluogi pobl yr effeithiodd dementia yn barhaol ar eu cof i wneud hyn yn glir i staff ysbyty ac mae'n rhoi strategaeth syml, ymarferol i'r staff fel y gallant ddiwallu eu hanghenion.

ar yr adegau hyn ac mae arwyddion clir ar yr ystafelloedd ymolchi yn dangos mai ar gyfer dynion yn unig neu fenywod yn unig y maent.

Wrth sgwrsio â'r cleifion gwelwyd eu bod yn cael peth dewis a dylanwad o ran eu gofal beunyddiol. Er enghraifft, dywedasant wrthym eu bod yn medru cael bath neu gawod mor aml ag y dymunent. Disgrifiodd un claf yn benodol sut y cawsai gymorth i fod mor annibynnol ag y bo'r modd (h.y. mynd i mewn i'r gwely a chodi oddi yno), gan ddefnyddio cymorth symudedd a ddarparwyd gan y therapydd galwedigaethol. Canfuom hefyd fod y cleifion yn cael dewis a oeddent am dreulio amser yn yr ystafell ddydd neu yn eu hystafell eu hunain ar wahanol adegau o'r dydd.

Mae'r cleifion yn elwa am fod sylw'n cael ei roi i'w hanghenion o safbwynt hydradiad a maeth. Cadarnhawyd hyn drwy sgwrsio â nifer o unigolion. Dywedodd un o'r cleifion wrthym '*mae'r bwyd yn ardderchog yma*'. Dywedodd claf arall wrthym fod yr ysbyty wedi cynnig dewisiadau llysieuol amrywiol a da. Wrth sgwrsio â'r staff ac arsylwi amser cinio, gwelwyd bod y ward yn sicrhau bod amserau bwyd yn cael eu hamddiffyn, fel y gall y staff helpu pobl i fwyta a'u monitro a sicrhau bod unigolion yn cael bwyta heb deimlo unrhyw frys.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn ymateb yn fuan iawn pan fyddent yn gofyn am gymorth, ddydd a nos. Gwelsom hefyd pa mor gyflym yr ymatebodd staff nyrsio a meddygol i glaf a alwodd am gymorth o'i ystafell.

Cynigir therapi rheoli straen ar gyfer cleifion sydd angen gofal lliniarol ac ar gyfer eu perthnasau a'u gofawyr. Yn gyffredinol, roedd yn amlwg bod sail aml-broffesiynol gref i'r gofal a roddid i'r cleifion.

Ni wnaethom ymweld â'r gwasanaeth ysbyty dydd yn ystod yr arolygiad hwn, er inni gael ar ddeall fod perthynas gwasanaeth allweddol rhwng y ward a'r ysbyty dydd sydd yn fuddiol o ran rhoi mynediad i wasanaethau adsefydlu a hybu iechyd ar gyfer cleifion yn y gymuned leol. Mae'r gwasanaeth hwn yn cefnogi pobl cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty ac wedyn, er mwyn iddynt allu bod yn annibynnol.

4b. Hanfodion Gofal

Yn ystod yr arolygiad fe wnaethom enwi chwe maes y dylid eu gwella mewn perthynas â Hanfodion Gofal. Mae manylion am y rhain i'w gweld yn Atodiad A.

Cyfathrebu a Gwybodaeth

Gwelsom fod y staff nyrsio a meddygol yn ddoeth a gofalus wrth gynnal sgwrs â chleifion yn ystod rowndiau ward. Sylwyd bod y trafodaethau yn nerbynfa'r ward (rhwng meddygon a staff y ward) hefyd yn cael eu cynnal yn ddoeth a gofalus. Hefyd, pan oedd staff y ward yn cyfathrebu â chleifion, roeddent yn gofalu eu bod yn dod yn agos at y claf ac nid yn galw arnynt o bell.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn ffyddiog eu bod yn cael gwybod digon am wahanol agweddau ar y gofal a gaent. At hynny, dywedodd rhai o'r cleifion wrthym eu bod yn cael rhan yn y cynllunio ar gyfer eu rhyddhau o'r ward. Ond o siarad ag ambell un o'r cleifion, deallwyd eu bod yn ansicr pa ran oedd ganddynt yn y penderfyniadau ynghylch eu triniaeth.

O siarad â chleifion ac archwilio cofnodion gofal, gwelwyd bod cleifion wedi cael cyngor arbenigol priodol mewn perthynas â therapi galwedigaethol, ffisiotherapi a therapi iaith a lleferydd. Roedd yr holl gofnodion meddygol yn cynnwys nodiadau cynhwysfawr a gadwyd gan wahanol aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol. Cawsom ar ddeall hefyd fod y tîm amlddisgyblaethol wedi atgyfeirio cleifion at weithwyr cymdeithasol yn y gymuned, gwasanaethau ail-alluogi a chlinigau asesu codymau, er mwyn ymateb i'r anghenion a ganfuwyd. Roedd un cofnod meddygol hefyd yn dangos yr ymdrechion a wnaed i roi rhan i berthynas yn y penderfyniadau ynghylch gofal a thriniaeth claf a'r trefniadau ar gyfer ei ryddhau o'r ysbyty.

Parchu pobl

Gwelsom lawer o enghreifftiau o ymwneud cyfeillgar a pharchus rhwng staff a chleifion yn ystod yr ymweliad. Wrth inni sgwrsio â'r cleifion, clywsom

sylwadau cadarnhaol iawn am agwedd ac ymddygiad y staff. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn eu galw wrth yr enw oedd orau ganddynt a bod holl aelodau tîm y ward yn cnocio ar ddrws eu hystafell cyn dod i mewn.

Sicrhau Diogelwch

Dywedodd y cleifion wrthym na chawsent unrhyw anhawster i gael hyd i staff yn ystod y dydd na'r nos a bod yr ymateb yn gyflym pan fyddent yn defnyddio eu cloch i ofyn am gymorth. O drafod â rheolwr y ward a'r staff eraill deallwyd bod lefelau'r staff yn cael eu hystyried yn ddigonol. Dywedodd rheolwr y ward wrthym hefyd eu bod yn gallu cael staff ychwanegol pan fo angen. Er enghraifft, maent ar gael i ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer cleifion sydd ag anghenion cymhleth.

Fe wnaethom nodi na wnaeth neb darfu ar nyrsys oedd yn mynd o gwmpas gyda meddyginiaethau wrth iddynt gyflawni'r agwedd hon ar eu gwaith, a'u bod yn cloi'r troli meddyginiaethau bob amser pan fyddai angen ei adael er mwyn mynd i mewn i ystafell un o'r cleifion. Canfuom hefyd fod yr ystafell benodedig yn y ward lle caiff meddyginiaethau eu storio, a'r holl gypyrddau ac oergelloedd lle cedwir meddyginiaethau, yn cael eu cloi bob tro pan na fyddant yn cael eu defnyddio. Nodwyd, fodd bynnag, nad oedd y nyrsys ar y rownd feddyginiaethau yn gwisgo tabardau coch.

Mae'n bosibl nad yw anghenion rhai cleifion yn cael eu diwallu'n llawn ar hyn o bryd. Y rheswm am hyn yw ei bod yn amlwg, o graffu ar bum set o ddogfennaeth cleifion, nad yw gofal cleifion bob amser yn gyson â'r ddogfennaeth sy'n ei gefnogi. Er enghraifft, nid oes canllawiau manwl/clir ar gael i dîm y ward mewn perthynas â:

- Gwahanol agweddau ar ofal person-ganolog i ymateb i anghenion y deuir yn ymwybodol ohonynt
- Dewisiadau a dymuniadau cleifion

Trafodwyd hyn â rheolwr y ward, a gydnabu'r angen i wella'r modd y mae nyrsys yn cofnodi asesiadau risg priodol ar gyfer cleifion a ffyrdd o

gynllunio/cyflwyno gofal. Fe wnaeth rheolwr y ward ddisgrifio hefyd y gwaith sydd ar y gweill i wella'r ffordd y cofnodir y gofal a roddir i gleifion.

Er gwaethaf hyn, sylweddolwyd wrth sgwrsio â rhai o'r cleifion fod y staff wedi mynd i drafferth i ddod i'w hadnabod ers iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty.

Hyrwyddo Annibyniaeth

Fe welsom staff yn helpu cleifion i barhau mor annibynnol ag y gallent o fewn amgylchedd yr ysbyty (e.e. ar adegau pan oedd unigolion yn symud o'r naill ran o'r ward i'r llall). Wrth sgwrsio â'r staff deallwyd eu bod wedi cael eu hyfforddi i ddarparu gofal ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, fel rhan o raglen addysg y ward. Mae arbenigwr gofal dementia ar gael i'w helpu hefyd ac mae'r arbenigwr hwn yn rhoi cyngor ynghylch y ffordd orau o alluogi unigolion i barhau'n annibynnol.

Cysylltiadau

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo bod gan y staff amser i wrando arnynt a'u bod ar gael i drafod agweddau ar eu gofal pan fo angen. Dywedasant wrthym hefyd fod teulu neu ffrindiau'n cael ymweld â nhw ar unrhyw adeg resymol o'r dydd, yn un o'r ardaloedd cyffredin neu yn eu hystafell eu hunain.

Gorffwys, Cwsq a Gweithgareddau

Roedd y cleifion yn cael cyfle i brynu papurau newydd a chylchgronau yn rheolaidd. Roedd teledu wedi'i osod ar y wal hefyd yn ystafell pob claf ac roedd ar gael am ddim iddynt. Roedd y cleifion yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol ar adegau rheolaidd yn ystod yr wythnos ac roedd hynny'n hyrwyddo eu lles corfforol a meddyliol.

Drwy sgwrsio â'r cleifion cafwyd cadarnhad eu bod yn cael cyfle i orffwys yn ystod y dydd. Dywedodd y cleifion hefyd fod ganddynt ddigon o obenyddion a gwrthbannau a'u bod yn cael gofyn am ragor er mwyn cadw'n gyfforddus. Gwelsom fod rhai cleifion a fu am beth amser yn y brif ystafell ddydd yn ystod y bore, yn gorffwys yn eu hystafell eu hunain yn ystod y prynhawn.

Sicrhau Cysur, Lleddfu Poen

Dywedodd y cleifion fod y staff yn ymateb yn gyflym pan fyddent yn gofyn am rywbeth i leddfu poen ac roedd yr holl gleifion fel petaent yn gyfforddus.

Fodd bynnag, er bod dogfennaeth y cleifion yn cynnwys ffurflen/offeryn cydnabyddedig ar gyfer asesu poen, roedd asesiadau'r cleifion wedi cael eu cofnodi mewn modd anghyson. Gan hynny nid oedd yn bosibl cadarnhau a oedd anghysur unigolion wedi cael ei asesu'n llawn cyn rhoi cyffur i leddfu poen a/neu a gynhaliwyd asesiad i benderfynu pa mor effeithiol oedd y feddyginiaeth wedi bod.

Er enghraifft, roedd cofnodion un claf yn nodi iddo gael mwy o boen yn y dyddiau diwethaf ac, er bod newid wedi'i wneud i'r feddyginiaeth a ragnodwyd ar ei gyfer, nid oedd dogfennaeth gyfatebol yn cofnodi sut roedd lefel poen yr unigolyn hwn yn cael ei monitro.

Glanweithdra Personol ac Ymddangosiad

O sgwrsio â'r cleifion cafwyd ar ddeall fod cyfleusterau ar gael iddynt gael cawod neu fath bob dydd. Gwelsom fod yr holl gleifion yn edrych fel petaent yn cael gofal da a bod eu hanghenion o ran glanweithdra personol yn cael eu diwallu. Fodd bynnag, nid oedd dogfennaeth y cleifion yn cynnwys tystiolaeth yn ategu bod y gofal personol a'r trefniadau glanweithdra a welsom ni, ac a ddisgrifiwyd gan y cleifion, ar waith.

Bwyta ac Yfed

O sgwrsio â'r cleifion, deallwyd eu bod yn gallu cael diod boeth neu oer adeg prydau bwyd ac unrhyw bryd y gofynnent yn ystod y dydd neu'r nos. Mae amser bwyd wedi ei 'amddiffyn' ac fe weinir y bwyd yn y lle bwyta sy'n rhan o'r ystafell ddydd neu yn ystafelloedd y cleifion eu hunain yn ôl eu dymuniad.

Cawsom mai yn rhannol yn unig y cwblhawyd siartiau maeth er mwyn dangos yr asesiadau risg a gyflawnwyd. Er enghraifft, roedd dogfennaeth un claf yn dangos ei fod mewn perygl o golli pwysau oherwydd diffyg archwaeth, sef

agwedd ar ei ofal y byddai angen ei fonitro. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth fod ei bwysau wedi cael ei gofnodi'n wythnosol yn unol â'r asesiad risg ac nid oedd unrhyw dystiolaeth chwaith fod siartiau dyddiol wedi cael eu cwblhau ar gyfer yr unigolyn dan sylw, i ddangos faint o fwyd a hylif yr oedd yn ei gymryd.

Iechyd a Glanweithdra'r Geg

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael glanhau eu dannedd/dannedd gosod eu hunain mor rheolaidd ag yr oedd arnynt eisiau. Er hynny, wrth inni adolygu dogfennaeth y cleifion, gwelsom rai enghreifftiau pan ddylasai dogfennaeth nyrsio fod ar gael i gefnogi gofal/glanweithdra'r geg, ond ni allem gael hyd i'r ddogfennaeth honno. Hefyd ni ellid egluro pam nad oedd y ddogfennaeth hon ar gael. Gall hyn olygu nad yw rhai cleifion bob amser yn cael gofal a chefnogaeth briodol, mewn perthynas â'r agwedd hon ar eu gofal.

Anghenion Toiled

Gwnaed sylwadau cadarnhaol gan y cleifion, a ddywedodd fod y staff yn gyffredinol yn ymateb yn gyflym pan ofynnid am gymorth i ddefnyddio'r toiled, ac am gymorth gyda'r dull oedd orau ganddynt, ddydd a nos.

Atal Briwiau Pwyso

O drafod â rheolwr y ward a'r tîm o staff oedd ar ddyletswydd, deallwyd bod trefniadau asesu risg ar waith i ofalu nad yw cleifion yn cael briwiau ar eu croen. Archwiliwyd cofnodion cleifion a gwelwyd bod y staff yn asesu a chofnodi'r risg o gael briwiau bob dydd gan ddefnyddio asesiad graddfa Waterlow³. Pan fyddai angen, byddai cleifion yn cael matres aer a mathau eraill o offer i liniaru pwysau.

Fodd bynnag, cawsom hefyd mai anghyson oedd y defnydd o fwndeli SKIN Cymru Gyfan⁴ ar gyfer atal briwiau pwyso ar y croen.

³ Offeryn polisi yw Waterlow i asesu'r risg o gael briwiau pwyso a'u hatal rhag digwydd

⁴ Dull cyfannol, syml yw bwndeli SKIN ar gyfer sicrhau bod pob claf yn derbyn gofal priodol i atal briwiau pwyso.

Er bod arferion da i'w gweld, fel y nodir uchod, fe wnaethom enwi chwe maes y dylid eu gwella mewn perthynas â Hanfodion Gofal. Mae manylion am y rhain i'w gweld yn Atodiad A:

- Cwblhau asesiadau risg cleifion mewn modd anghyson
- Asesiadau poen anghyflawn
- Nid oedd y cynlluniau gofal yn adlewyrchu'r hyn oedd yn cael ei wneud gyda glanweithdra a gofal y cleifion
- Dim ond i raddau y cwblhawyd siartiau maeth i adlewyrchu'r asesiadau risg a wnaed
- Dim ond i raddau y defnyddiwyd ac y cwblhawyd bwndeli gofal y geg
- Cymhwyswyd bwndeli SKIN Cymru gyfan yn anghyson

4c. Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Yn ystod yr arolygiad hwn fe wnaethom ddau ganfyddiad lle mae angen gwelliant ym maes Rheolaeth ac Arweinyddiaeth. Mae manylion am y rhain i'w gweld yn Atodiad A.

Yn gyffredinol, gall cleifion fod yn hyderus fod y gwasanaeth yn Ysbyty Bronllys yn cael ei redeg yn dda. Canfuom fod gan y Bwrdd Iechyd nifer o drefniadau monitro sydd wedi'u sefydlu i edrych ar brofiad cleifion o ofal, arferion clinigol, systemau gwaith diogel a'r agweddau ehangach ar lywodraethu sefydliad. Fodd bynnag, gwelsom nifer o ddiffygion mewn perthynas â'r trefniadau presennol ar gyfer atal a rheoli heintiau.

O drafod â staff y ward gwelwyd bod y tîm ar y ward yn teimlo bod yr uwch reolwyr yn eu cefnogi'n dda. Teimlai'r staff eu bod wedi eu grymuso i wneud gwelliannau i'r modd y rhoddir gofal i'r cleifion ac i drafod syniadau mewn modd agored a thryloyw.

O drafod â rheolwr y ward, deallwyd bod pwyslais yn cael ei roi ar gefnogi staff bob amser pan fyddant wrth eu gwaith. Cydnabyddid yr heriau a'r

pwysau y mae'r tîm yn eu hwynebu o ddydd i ddydd a sylweddolid bod staff brwdfrydig a gwaith tîm da yn golygu gwell canlyniadau i'r cleifion.

Fe wnaethom nodi bod gofal therapiwtig yn rhan bendant o feddylfryd y ward a bod gweithgareddau amrywiol ar gael i'r cleifion yn rheolaidd yn ystod yr wythnos, i hyrwyddo eu lles corfforol a meddyliol. Mae clinig ar gael ar gyfer perthnasau hefyd, i roi i berthnasau a gofalwyr yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen.

Er bod arferion da i'w gweld, fel y nodir uchod, fe wnaethom enwi dau faes y dylid eu gwella mewn perthynas â Rheolaeth ac Arweinyddiaeth. Mae manylion am y rhain i'w gweld yn Atodiad A:

- Data mesur gofal⁵ yn anghyflawn.
- Dim digon o gyfathrebu rhwng y staff nyrsio a'r staff domestig.

4d. Ansawdd a Diogelwch

Yn ystod yr arolygiad hwn fe wnaethom enwi un maes y dylid ei wella yn y cyswllt hwn. Mae manylion am ein gofynion mewn perthynas â'r maes i'w gweld yn Atodiad A.

Cafwyd bod cynllun y ward yn ei gwneud yn anodd arsylwi ar y cleifion, yn enwedig yn y nos pan fydd llai o staff ar ddyletswydd. Er gwaethaf hyn, cadarnhawyd drwy drafod â rheolwr y ward a'r uwch reolwyr fod pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod staff yn bresennol ym mhob rhan o'r ward fel y gellir cynorthwyo cleifion yn syth a gofalu, er enghraifft, nad oes perygl iddynt syrthio.

Roedd rhai o gofnodion y cleifion yn cael eu cadw yn y dderbynfa. Tîm y staff oedd yn gofalu bod y rhain yn ddiogel. Roedd cofnodion eraill yn cael eu cadw

⁵ "Trefn yw'r Data Mesur Gofal (Care Metrics) er mwyn gallu monitro gwybodaeth am rai agweddau ar ofal, i fesur ansawdd. Rhai enghreifftiau yw codymau a rhannau o'r croen sydd â phwysau arnynt. Mae'r data mesur gofal yn rhan o ddangosfwrdd clinigol dangosyddion ansawdd".

y tu allan i ystafelloedd y cleifion mewn plygellau a oedd yn fodd i sicrhau na ellid gweld gwybodaeth gyfrinachol yn rhwydd.

Fodd bynnag, gwelsom fod anghysonderau mewn nifer bach o gofnodion gweinyddu meddyginiaethau, lle dylasid cael naill ai (a) llofnod nyrs neu (b) cod penodol i nodi na weinyddwyd meddyginiaeth. Yn ystod yr arolygiad fe roesom wybod i reolwr y ward am hyn a gofyn i'r mater gael ei hysbysu drwy'r system DATIX⁶.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel wrth iddynt dderbyn gofal yn ystod y dydd a'r nos. Gwelsom hefyd fod y staff yn ymateb yn brydlon iawn pan fyddai rhywun yn gofyn am gymorth. Er mwyn helpu'r cleifion i ddeall beth oedd gwaith gwahanol aelodau o dîm y staff ar y ward, roedd gan y staff nyrsio a'r staff gofal wahanol wisgoedd unffurf yn unol â Chod Gwisg Cymru Gyfan, gyda bathodynau clir i ddangos eu henwau.

Er bod arferion da i'w gweld, fel y nodir uchod, fe wnaethom enwi'r maes isod y dylid ei wella mewn perthynas ag Ansawdd a Diogelwch. Mae manylion i'w gweld yn Atodiad A:

- Anghysonderau mewn nifer bach o gofnodion gweinyddu meddyginiaethau

5. Hapwiriad Glanweithdra

Yn ystod yr arolygiad fe wnaethom enwi naw maes y dylid eu gwella mewn perthynas â'r hapwiriad glanweithdra. Ar gyfer un ohonynt, bu'n rhaid i'r Bwrdd lechyd roi sicrwydd i ni yn syth. Mae manylion am y gofynion a wnaethom ac ymateb y Bwrdd lechyd i'r mater lle roedd yn rhaid rhoi sicrwydd yn syth, i'w gweld yn Atodiad A.

⁶ Offeryn yw meddalwedd DATIX sy'n cael ei ddefnyddio yn y GIG i gofnodi, ymchwilio, dadansoddi achosion digwyddiadau niweidiol a phethau a fu bron â digwydd.

Yn gyffredinol, roedd amgylchedd y ward yn ymddangos yn lân a dymunol. O sgwrsio â'r cleifion deallwyd eu bod yn fodlon ar lanweithdra eu hystafelloedd eu hunain ac yn hoffi'r modd y cafodd y lle ei addurno. Nid oedd y ward at ei gilydd yn orlawn o bethau ac felly roedd y cleifion a'r staff yn gallu symud o gwmpas yn rhwydd a diogel. Fodd bynnag, cawsom fod yr ystafelloedd ymolchi yn cynnwys eitemau nad oeddent yn perthyn i neb penodol.

Roedd gwybodaeth y staff o weithdrefnau atal a rheoli heintiau Cymru gyfan yn annerbyniol. Cawsom nad oedd y staff nyrsio a domestig wedi cael hyfforddiant ar arferion atal a rheoli heintiau yn y blynyddoedd diwethaf. Trafodwyd y mater hwn ag uwch aelodau'r Bwrdd Iechyd yn ystod yr ymweliad arolygu a rhoesant ar ddeall eu bod yn fodlon mynd i'r afael â'r mater yn ddi-oed. Gan fod y mater yn un difrifol, anfonwyd llythyr at y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Nyrsio yn gofyn am sicrwydd ar unwaith ac yn mynnu bod yr Ymddiriedolaeth yn rhoi cynllun gweithredu i AGIC er mwyn ymateb i'r mater dan sylw. Ers hynny mae AGIC wedi cael ymateb amserol a boddhaol gan yr Ymddiriedolaeth.

O sgwrsio â staff nyrsio a domestig, deallwyd bod amryw byd o raglenni ar gyfer gwaith glanhau sylfaenol yn bodoli yn y ward, nad oedd pobl yn eu deall yn iawn. At hynny, nid oedd unrhyw dystiolaeth o gofnodion glanhau rhwng Hydref 2013 a Chwefror 2014. Felly fe argymhellodd AGIC y dylid cyfuno'r rhaglenni er mwyn ei gwneud yn haws i'r staff sicrhau bod yr holl dasgau glanhau yn cael eu cyflawni a'u monitro. Nid oedd y staff yn deall yn glir chwaith pryd y dylent ddefnyddio gel alcohol yn hytrach na sebon er mwyn glanhau eu dwylo yn y modd gorau posibl neu eu cadw'n lân. Fodd bynnag fe fanteisiwyd ar y cyfle i weld sut roedd pobl yn golchi eu dwylo yn ystod yr arolygiad a barnwyd eu bod yn eu golchi'n foddhaol.

Er bod arferion da i'w gweld, fel y nodir uchod, fe wnaethom enwi'r naw maes a ganlyn y dylid eu gwella mewn perthynas â Glanweithdra. Mae manylion am y rhain i'w gweld yn Atodiad A:

- Nid oedd gan y staff wybodaeth ddigonol am weithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan
- Nid oedd tapiau garddwrn/penelin ar y sincipiau yn y ward
- Hylifau glanhau yn cael eu storio mewn modd amhriodol
- Un badell wely a'r holl gomodau angen eu glanhau
- Dim tystiolaeth o gofnodion tymheredd ar gyfer y peiriannau golchi/diheintio yn y ddau le golchi
- Eitemau offer yr oedd angen eu condemnio
- Rhai cadeiriau wedi'u gorchuddio â defnydd anhydraidd, fel bod staeniau i'w gweld arnynt
- Golau wedi torri uwchben gwely un o'r cleifion
- Llawer o raglenni glanhau nad oedd pobl yn eu deall yn iawn a chofnodion glanhau anghyflawn

7. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gwblhau Cynllun Gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno eu Cynllun Gwella i AGIC cyn pen pythefnos wedi i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi.

Dylai Cynllun Gwella'r Bwrdd Iechyd ddweud yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a wnaed yn Ward Llewellyn, Ysbyty Bronllys yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau na chanfyddir diffygion tebyg i'r rhain yn adrannau / unedau eraill y Bwrdd Iechyd.

Unwaith y cytunir ar Gynllun Gwella'r Bwrdd Iechyd, fe'i cyhoeddir ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses barhaus o arolygu Urddas a Gofal Hanfodol.

Urddas a Gofal Hanfodol: Cynllun Gwella

Ysbyty: Bronllys

Ward: Llewellyn

Atodiad A

Cyf.	Canfyddiad	Gofyniad	Beth y mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd ei wneud	Swyddog sy'n Gyfrifol	Amserlen
4a. Profiad Cleifion					
Yn ystod yr arolygiad hwn ni wnaethom unrhyw ganfyddiadau sy'n golygu bod angen gwelliannau yn y maes hwn.					
4b. Hanfodion Gofal					
4b.1	Asesiadau risg cleifion wedi cael eu cwblhau mewn modd anghyson: Nid oedd asesiadau risg wedi eu hymgorffori'n llawn mewn cynlluniau gofal person-ganolog; roedd cynlluniau gofal cleifion heb fod ar gael neu heb ddigon o fanylion i gyfarwyddo staff wrth iddynt roi gofal a chefnogaeth.	Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau y cwblheir dogfennaeth i adlewyrchu'r gofal a ddarperir a bod asesiadau risg yn cael eu cynnal a'u dogfennu yn unol â'r gofynion.			
4b.2	Asesiadau poen anghyflawn: Cafwyd bod siartiau asesu poen cleifion yn anghyflawn ac nad oedd ynddynt dystiolaeth i ddangos bod adolygiad	Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod siartiau asesu poen yn cael eu cwblhau'n gyson a'u			

	wedi'i gynnal er mwyn penderfynu a oedd y dull a ddefnyddiwyd i liniaru poen yn effeithiol ac yn lliniaru poen cleifion.	hadolygu er mwyn asesu addasrwydd y ddarpariaeth a wneir i liniaru poen cleifion.			
4b.3	Nid oedd y cynlluniau gofal yn adlewyrchu'r sylw oedd yn cael ei roi i lanweithdra personol a gofal cleifion: Cafwyd nad oedd y ddogfennaeth nyrsio yn cynnwys tystiolaeth o'r gofal person-ganolog a welwyd gennym, a'i bod yn cael ei chwblhau mewn modd anghyson	Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod dogfennaeth yn cael ei chwblhau fel ei bod yn adlewyrchu'n llawn y gofal person-ganolog a roddir, sy'n gweddu i anghenion yr unigolyn			
4b.4	Nid oedd y siartiau maeth wedi cael eu cwblhau'n llawn er mwyn adlewyrchu'r asesiadau risg a gynhaliwyd: Gwelsom enghreifftiau lle roedd cleifion wedi cael asesiad risg yn nodi y dylid cofnodi a monitro pa faeth yr oeddent yn ei gael, trwy ddefnyddio siart bwyd	Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod Siart Bwyd Cymru Gyfan yn cael ei gwblhau os yw asesiad risg claf yn nodi mai dyna sy'n ofynnol			

	Cymru gyfan ond nid oedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn nogfennaeth y cleifion				
4b.5	Bwndeli gofal y geg heb gael eu defnyddio a'u cwblhau yn llawn: Doedd fawr ddim tystiolaeth, neu ddim o gwbl, fod bwndel Gofal y Geg Cymru Gyfan wedi cael ei ddefnyddio mewn perthynas â glanweithdra'r geg lle roedd asesiad risg claf yn nodi mai dyna oedd yn ofynnol	Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod Bwndeli Gofal y Geg Cymru Gyfan yn cael eu defnyddio a'u cwblhau'n gyson os yw asesiad risg claf yn nodi mai dyna sy'n ofynnol			
4b.6	Cymhwyso bwndel SKIN Cymru gyfan yn anghyson. Cawsom fod bwndeli SKIN⁷ Cymru gyfan yn cael eu cymhwyso mewn modd anghyson, mewn perthynas ag atal briwiau pwysu ar y croen	Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y defnyddir ac y cwblheir bwndel SKIN Cymru gyfan mewn modd cyson.			

⁷ Dull cyfannol, syml yw bwndeli SKIN ar gyfer sicrhau bod pob claf yn derbyn gofal priodol i atal briwiau pwysu

4c. Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
4c.1	Dim digon o gyfathrebu rhwng staff nyrsio a staff domestig: Dealltwriaeth anghyson oedd i'w gweld gan staff nyrsio a staff domestig mewn perthynas â swyddogaethau a chyfrifoldebau wrth baratoi ystafell ar gyfer claf newydd a gwaith glanhau trylwyr	Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y staff nyrsio a domestig yn deall yn glir beth yw eu cyfrifoldebau, yn enwedig mewn perthynas â'r tasgau angenrheidiol i baratoi ystafelloedd cleifion.			
4c.2	Cafwyd bod y data mesur gofal yn anghyflawn.	Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y data mesur gofal wedi'u diweddarau ac yn gwbl gyflawn			
4d. Ansawdd a Diogelwch					
4d.1	Anghysonderau mewn nifer bach o gofnodion gweinyddu meddyginiaethau. Gwelsom enghreifftiau lle dylasid cael naill ai (a) llofnod nyrs neu (b) cod	Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd ddarparu tystiolaeth bod y digwyddiad wedi'i wneud yn hysbys drwy'r			

	penodol i nodi na weinyddwyd meddyginiaeth.	system DATIX a rhoi manylion am sut y byddant yn sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n ddiogel			
5. Glanweithdra					
5.1	Roedd gwybodaeth y staff o weithdrefnau atal a rheoli heintiau Cymru gyfan yn annerbyniol ac ni chawsom unrhyw dystiolaeth fod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal hyfforddiant penodol ar atal a rheoli heintiau yn y blynyddoedd diwethaf, ar gyfer staff nyrsio na domestig.	Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant digonol ar atal a rheoli heintiau, a sicrhau y cydymffurfir â gweithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan.	Atgyfnerthu'r drefn i gael yr holl staff i fynd ar y rhaglen hyfforddi statudol, orfodol. Rhoi ar waith fesul cam yr hyfforddiant e-ddysgu newydd ar atal a rheoli heintiau Sesiynau hyfforddi ymarferol ar y ward, ar gyfer tîm Ward Llewellyn	Rheolwyr /Staff Cyfarwyddiaeth Lleoliadau a Gwasanaethau Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol Prif Nyrs/ Uwch Nyrs/ Goruchwyliwr Staff Domestig	Mawrth 2014 Ebrill 2014 Mawrth- Ebrill 2014
5.2	Nid oedd tapiau garddwrn/penelin ar	Mae'n rhaid i'r Bwrdd			

	sinciau yn y ward. Cawsom nad oedd tapiau garddwrn/penelin ar y rhan fwyaf o'r sinciau yn y ward.	lechyd sicrhau bod yr offer yn y ward yn cydymffurfio â gweithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan.			
5.3	Hylifau glanhau yn cael eu storio'n amhriodol. Gwelsom boteli o hylifau glanhau mewn mannau y mae cleifion yn mynd iddynt.	Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y staff domestig yn mynd â'r holl ddefnyddiau glanhau o bob man ar ôl gorffen glanhau			
5.4	Roedd un badell wely a'r holl gomodau angen eu glanhau. Roedd y badell wely a'r comodau dan sylw wedi'u labelu fel rhai a lanhawyd ond o'u harchwilio cafwyd nad oeddent yn lân.	Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gweithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan yn cael eu dilyn yn gywir.			
5.5	Nid oedd unrhyw dystiolaeth o gofnodion tymheredd ar gyfer y peiriannau golchi/diheintio yn y ddau le	Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gweithdrefnau Atal a			

	golchi.	Rheoli Heintiau Cymru Gyfan yn cael eu dilyn yn gywir.			
5.6	Cawsom nifer bach o eitemau offer nad oedd yn addas i'r diben mwyach ac roedd angen eu condemnio. Trafodwyd hyn â staff y ward yn ystod yr arolygiad.	Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau y ceir gwared ag offer sydd wedi ei gondemnio yn ddi-oed.			
5.7	Nid oedd rhai o gadeiriau'r cleifion wedi'u gorchuddio mewn defnydd anhydraidd ac o ganlyniad roedd staeniai i'w gweld arnynt	Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gorchuddion cadeiriau yn cydymffurfio â gweithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan a chael rhai newydd os bydd angen.			
5.8	Roedd golau uwchben gwely un claf wedi torri a chafwyd ei fod yn cael ei ddal at ei gilydd â thâp na ellid ei lanhau. Gan hynny mae'n bosibl y	Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gwaith trwsio addas yn cael ei wneud pan fydd ffitiadau			

	byddai'n anodd cael gwared â bacteria.	wedi torri, ac y dilynir gweithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan			
5.9	Roedd amryw byd o raglenni ar gyfer gwaith glanhau sylfaenol yn bodoli yn y ward, nad oedd pobl yn eu deall yn iawn. At hynny, nid oedd unrhyw dystiolaeth o gofnodion glanhau rhwng Hydref 2013 a Chwefror 2014.	Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y cyfunir y rhaglenni glanhau er mwyn ei gwneud yn haws i'r staff sicrhau bod yr holl dasgau glanhau yn cael eu cyflawni a'u monitro. A sicrhau bod cofnodion glanhau yn cael eu cwblhau'n gyson wedyn.			